**Lesley Griffiths AC / AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/LG/0826/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@assembly.wales

17 Rhagfyr 2018

Annwyl Mick,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A.

Rwyf yn ysgrifennu hefyd i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i drafod yr OS hwn yn yr achos hwn.  Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn ar sail y ffaith mai'r unig beth y mae'r OS hwn yn ei wneud yw gwneud diwygiadau gweithredadwyedd a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r OS yn ymwneud â diwygiadau i weithredadwyedd Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei hystyried, nid wyf yn credu y byddai dadl am yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser gwerthfawr y Cyfarfod Llawn ac ni fyddaf yn ceisio cynnal dadl o'r fath. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 30A yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu y gall unrhyw aelod gyflwyno cynnig am ddadl ar yr OS hwn. Os bydd dadl o'r fath yn cael ei chynnal byddwn yn barod iawn i gymryd rhan ynddi.

Cofion,

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales